# Y DINESYDD

Hydref 2019 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 441 £1







## GŴYL FWYD SAIN FFAGAN

td.13

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Manon Phillips**

***Golygydd Tachwedd***
***Alun Treharne***

Cyfraniadau erbyn 27 Hydref i:
aluntreharne@btinternet.com
91 Windermere Avenue, Parc y Rhath,
Caerdydd, CF23 5PS
O29 2075 4436 / 07800 908898

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


# Pobol y Rhigwm

Y dasg i'r rhigymwyr y tro hwn oedd llunio triban yn cynnwys enw unrhyw stryd yng Nghaerdydd. Cafwyd ymateb rhagorol a debyniwyd llawer o gynigion teilwng. Nid ar chwarae bach mae llunio triban, ac mae'n rhaid gwneud yn siŵr fod yr odl gyrch yn taro'n bert rhwng y drydedd linell a chanol y llinell glo. Fe ddilyswyd yr holl enwau strydoedd – maent i gyd yn ymddangos ar fap o Gaerdydd yn rhywle!

Dyma'r tri a ddaeth i'r brig:

**Mapsant**

'Pwy ffordd i Bant y Cosyn?'
Gofynnodd Sais o grwydryn.
Atebais innau, ''Machgen gwyn,
Nid o'r fan hyn mae cychwyn!'

**Mynd a Dod**

Un od yw Heol Ninian,
Nid yw yn mynd i unman!
Gwahanol iawn yw City Road –
Mae hon yn dod o bobman!

**Damo**

Yr oeddwn i ers tipyn
yn gwynto hen ddihiryn,
ond pan gyrhaeddais Hewl y Cawl
y diawl oedd yn fy nilyn.

Bu'n anodd dewis y gorau o'r tri. Mae Mapsant wedi llwyddo i wau'r hen jôc Wyddelig yn driban crefftus. Fodd bynnag, mae'r ddau arall, rywsut, yn awgrymu mwy na'r gwir llythrennol a ddywedir. Efallai fod arwyddocâd mwy i City Road a Heol Ninian heblaw'r hyn y mae'n ei weld ar fap... ydyn nhw'n symbolau am bethau eraill tybed? Y gorau gen i yw triban Damo. Mae Hewl y Cawl, wrth gwrs, wrth Yr Ais, ond eto mae mwy na stori am ddihiryn yn dilyn y bardd i ganol y ddinas. Ai'r bardd ei hun yw'r dihiryn, neu ei gysgod efallai?

Mae'r triban hwn wedi goglais dychymyg y beirniad felly **Damo** sy'n mynd â hi. Llongyfarchiadau iddo/iddi a diolch i bawb am gystadlu.

**Enillydd tasg rhif 25 yw**
**Martin Huws, Ffynnon Taf**

Y dasg erbyn y tro nesaf yw llunio englyn yn cynnwys enw unrhyw ddinas Ewropeaidd.

Anfonwch eich cynigion, yn ôl yr arfer, at db.james@ntlworld.com erbyn 18 Hydref.

***Emyr Davies***

## Cwrs Cynganeddu

Os hoffech chi ddysgu'r grefft arbennig hon, beth am ymuno ag un o'r dosbarthiadau canlynol? Byddant yn cwrdd bob pythefnos rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020 (10 sesiwn) gan ddechrau ar 15 Hydref.

Dosbarth 1: Adnabod y Grefft; tiwtor, Emyr Davies; lleoliad, Cwrt Insole, Llandaf

Dosbarth 2: Ymarfer y Grefft: tiwtor, Aron Pritchard; lleoliad, Chapter, Treganna

Dosbarth 3: Meistroli'r Grefft; tiwtor, Gruffudd Owen; lleoliad, Chapter, Treganna

I gofrestru neu am fwy o wybodaeth ewch i: https://bit.ly/20TAzCQ

# Cyhoeddi Rhestr Testunau Eisteddfod Caerdydd

Mae rhestr testunau Eisteddfod Caerdydd bellach yn fyw ar ein gwefan www.eisteddfodcaerdydd.cymru. Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ddydd Gwener 17 Ionawr 2020 o 4pm yn Ysgol Plasmawr.

Mae gyda ni gystadlaethau i bawb o blant cynradd i gystadlaethau sy'n agored i bawb. Os fyddwch chi am gystadlu yn y cystadlaethau llwyfan bydd gofyn i chi lenwi ffurflen ar-lein cyn dydd Gwener 10 Ionawr 2020.

Yn ogystal â chystadlaethau llwyfan, mae gyda ni gystadlaethau llenyddiaeth hefyd. Y dyddiad cau ar gyfer y cystadlaethau llên yw 6pm dydd Gwener 6 Rhagfyr 2019, ac mae modd anfon y gwaith dros e-bost neu drwy'r post. Mae'r holl destunau, yn ogystal â'r rheolau ac amodau a'r manylion cystadlu yn y cystadlaethau llenyddol llên, ar gael yn www.eisteddfodcaerdydd.cymru.




Ein beirniaid am y flwyddyn gyntaf yma fydd Steffan Rhys Hughes (Gwerin a Cherdd Dant), Rhys Talyor (Offerynnol), Osian Rowlands (Cerddoriaeth), Garry Owen (Llefaru), Sarah a Keith Hopkin (Dawnsio), Emyr Davies (Llenyddiaeth).

Hefyd os oes diddordeb gyda chi mewn noddi cystadleuaeth benodol neu mewn noddi'r eisteddfod yn gyffredinol, tarwch e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru.

# Arddangosfa Tad a Mab

Ddydd Sadwrn, 7 Medi, agorwyd arddangosfa o beintiadau newydd gan Anthony Evans a'i fab, Aron, yn eu stiwdio Oriel Canfas yn Glamorgan St., Treganna.



Teitl yr arddangosfa yw 'Teithiau', ac mae'r peintiadau yn adlewyrchu argraffiadau ac atgofion y ddau wrth iddynt deithio o gwmpas Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Arfordir Sir Benfro yw prif ffocws Aron, ac mae'r ardal o gwmpas Llangrannog yn cael lle amlwg yng ngwaith Anthony.

Mae croeso i chi alw heibio i gael sgwrs a gweld yr arlunwyr wrth eu gwaith.

## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina



# Ysgol Plasmawr

**Disgyblion yn perfformio mewn Uwch-gynhadledd addysg ryngwladol**

Cafodd yr ysgol a nifer o'r disgyblion y fraint o gymryd rhan mewn uwch gynhadledd addysg ryngwladol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ystod mis Medi.

Daeth Gweinidogion a swyddogion addysg ynghyd o bedwar ban y byd i'r uwch-gynhadledd 'Cynghrair Cylch yr Iwerydd' (ARC summit) a drefnwyd gan adran addysg Llywodraeth Cymru.

Dyma'r bedwaredd uwch-gynhadledd o'i math a'r tro cyntaf i Gymru gynnal yr uwch-gynhadledd. Croesawyd yr aelodau i Gymru gan y Gweinidog Addysg Kirsty Williams, a bu'n gyfle iddi ddisgrifio'r rhaglen o ddiwygiadau addysgiadol sydd ar waith yng Nghymru i aelodau'r gynghrair o wledydd Wrwgwái, Canada, Gwlad yr Iâ, Ffindir, De Affrica, Iwerddon, yr Alban, Lloegr a Gwlad y Basg.

Roedd yn anrhydedd i'r ysgol gael ei gwahodd i gynnig gweithdy yn y gynhadledd ar ein gwaith fel ysgol arloesol yn maes Iechyd a Lles, Cwricwlwm i Gymru ac i gynnal ymweliad â'r ysgol ar gyfer rhai o'r aelodau o wledydd tramor.

Gwahoddwyd y côr bechgyn hŷn (enillwyr Eisteddfod yr Urdd, 2019) i gynnig adloniant i aelodau'r uwch-gynhadledd a'r Gweinidog Addysg ar gychwyn cinio mawreddog yng nghastell Caerdydd. Cafwyd canmoliaeth frwd gan bawb i'r côr yn ogystal ag i Iestyn Jones, Nansi Rhys Adams a Lili Mohammad a gyflwynodd adloniant Cymreig i aelodau'r uwch-gynhadledd yn ystod yr ail ginio mawreddog yng ngŵydd ein Prif Weinidog yn Sain Ffagan. Diolch i Mr Rhydian Lake a Mr Dion Davies am arwain ac am gyfeilio i'r disgyblion.



*Côr Bechgyn Hŷn Plasmawr fu'n canu yn ystod y cinio mawreddog*

# Ysgol Pencae

**Ffarwelio gyda Mr Richard Thomas**

Roedd diwedd tymor yr haf yn ddiwedd cyfnod i ni yn Ysgol Pencae wrth i ni ffarwelio gydag un o hoelion wyth yr ysgol, y Pennaeth, Mr Richard Thomas. Ymunodd Mr Thomas gyda theulu Ysgol Pencae ddwy flynedd ar bymtheg yn ôl fel Dirprwy Bennaeth yn gweithio o dan arweiniad y pennaeth ar y pryd, Mrs Eleri Jones. Yn dilyn ei hymddeoliad, pwy well i gymryd yr awenau o arwain yr ysgol ond Mr Thomas ac am y deuddeg mlynedd diwethaf mae wedi cyfoethogi'r ysgol gyda'i weledigaeth a'i frwdfrydedd.

Rhan allweddol o'i weledigaeth yw sicrhau bod disgyblion yr ysgol yn derbyn profiadau amrywiol a chyfoethog er mwyn eu datblygu yn ddinasyddion uchelgeisiol sydd yn ymfalchïo yn eu Cymreictod. Roedd yn ddyddiol yn annog y disgyblion gyda'i ymadroddion: *Siarad Cymraeg gyda Balchder* ac *Ymdrech a Lwydda*! Yn ystod ei gyfnod yn Ysgol Pencae, mae wedi rhannu ei fwynhad o gerddoriaeth a pherfformio wrth arwain yr ysgol yn flynyddol i serennu yng nghystadleuaeth Cân Actol Eisteddfod yr Urdd. Un o rinweddau amlycaf Ysgol Pencae yw agosatrwydd yr holl gymuned, ac mae Mr Thomas wedi llwyddo i greu 'ysgol bentrefol yn y ddinas', ysgol yr ydym i gyd yn falch i fod yn rhan ohoni. Er bydd gwagle mawr yn yr ysgol heb ei gwmni, dymunwn yn dda iawn iddo yn ei rôl newydd gydag Estyn.



*Mr Richard Thomas*

Cyfarchiad i Mr Thomas gan Osian Rhys Jones.

Wrth godi'r to, wrth ganu,
I'n dal, fel un o'th deulu,
Dy adain fu am bob un cyw
Yn hyfyw i'n dyrchafu.

Erbyn hyn mae gyda ni Bennaeth newydd, Mr Richard Carbis. Estynnwn groeso cynnes iddo gan edrych ymlaen at bennod lewyrchus arall yn hanes Ysgol Pencae.

# Ysgol Pen y Garth

**Rhys yn fuddugol**

Yn ystod yr haf, cystadlodd Rhys Lewis 8 oed o Benarth mewn cystadleuaeth ddylunio a oedd yn agored i blant dros Brydain gyfan. Roedd yn rhaid iddo ddylunio llun i annog y defnydd o wellt diblastig ar gyfer y cwmni 'Happy Ocean' a Rhys oedd yn fuddugol allan o'r miloedd a gymrodd ran. Dyluniodd lun o ddolffin a fydd yn ymddangos ar gynnyrch y cwmni ledled Prydain.


*Rhys*

Cafodd Rhys ei ysbrydoli gan y dolffiniaid y mae'n gallu eu gweld o'i gartref ym Mhenarth. Yn ôl Rhys, nid cartref yn unig yw'r môr i'r dolffin ond lle chwarae hefyd a fyddai fe ddim yn hoffi os fyddai ei le chwarae yn llawn o sbwriel! Llongyfarchiadau enfawr i ti Rhys.

**Carfan Rygbi Bro Morgannwg**

Mae Jac Evans a Trystan Coates wedi cael eu dewis i fod yn aelodau o garfan rygbi Bro Morgannwg y tymor hwn. Da iawn chi fechgyn!


*Jac a Trystan*

**Torri Record**

Yn ogystal, mae Jac Evans wedi torri record taflu gwaywffon dan ddeuddeg oed, dair gwaith haf eleni.

Llongyfarchiadau mawr Jac!

**Addysg Gymraeg: Cyfanswm y niferoedd wedi gostwng ond y ganran ar i fyny.**

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae nifer y plant sy'n cael mynediad i addysg Gymraeg yng Nghaerdydd wedi gostwng gyda'r niferoedd eleni yn 696 sef 51 yn llai na'r uchafswm o 747 a welwyd yn 2016, nifer oedd yn adlewyrchu twf cyson ers 2000 ar raddfa o 6% y flwyddyn. Cyn y flwyddyn 2000, nid oedd graddfa'r twf mor uchel ond gwelwyd twf cyson yn y niferoedd ers cychwyn addysg Gymraeg yn 1949. Ni chafwyd cwymp yn ystod yr un flwyddyn er y gwelwyd y twf yn lleihau pryd roedd anhawsterau wedi bwrw'r system, megis methu â dod o hyd i adeilad i wasanaethu'r bwlch a fu rhwng Y Wern a Bro Eirwg.

Beth sydd wedi achosi'r newid o dwf cyson i'r lleihad yn y niferodd dros y dair blynedd diwethaf? Yn 2017, er bod lleihad wedi bod yn nifer y mynediadau, roedd canran y plant sy'n dewis addysg Gymraeg wedi cynyddu o 16% i 16.2% am fod nifer y cohort cyfan (Cymraeg a Saesneg) wedi lleihau yn fwy na'r cohort Cymraeg. Eleni, yr un yw'r patrwm gyda maint y cohort cyfan yn disgyn i 4073 sy'n golygu bod y ganran sy'n dewis addysg Gymraeg wedi cynyddu i 17.3%.

Mae'n werth edrych ar y rhifau am yr 17 ysgol unigol, sy'n syrthio i wahanol dosbarthiadau:-

Dosbarth 1. Y chwech ysgol lle mae'r galw'n parhau yn uwch na'r ddarpariaeth, sef Y Wern, Y Berllan Deg, Mynydd Bychan, Pencae, Gwaelod-y-garth a Nant Caerau. Mae'r Sir wedi cael yr arian i helaethu Nant Caerau a Mynydd Bychan i ddwy frwd ond yn dal i chwilio am safleoedd newydd. Mae Penygroes o hyd yn hanner gwag ac yn gallu derbyn gorlif o'r Wern a'r Berllan Deg, cynnig nad yw'n dderbyniol i'r rhieni. Bydd ysgol arfaethedig Plasdwr yn gallu tynnu rhywfaint o bwysau oddi ar Gwaelod-y-garth.

Dosbarth 2. Y ddwy ysgol newydd sydd wedi eu helaethu i dderbyn dwy ffrwd mewn adeiladau newydd sbon, sef Hamadryad (38) a Glanmorfa (36). Y mae'r ddwy yn dal i dyfu ond yn y cyfamser, cyn cyrraedd eu llawn dwf, mae 46 lle gwag ynddynt.

Dosbarth 3. Y dair ysgol sydd wedi bod yn llawn neu'n orlawn ond eleni sydd â gwagleoedd sylweddol. Melin Gruffydd (46) oedd yr ysgol gyntaf i gael ei sefydlu y sgil datgymalu Bryntaf ac mae hi wedi tyfu'n gyson dros y 40 mlynedd diwethaf. Mae'n syndod ei gweld yn syrthio nôl i ffrwd a hanner, yn arbennig am nad oes cwymp tebyg wedi bod yn y niferoedd yn yr ysgolion Saesneg yn ei dalgylch. Agorwyd Ysgol Glan Ceubal i dynnu pwysau'r galw oddi ar Melin Gruffydd a Phencae a llynedd roedd hi'n orlawn. Syndod eto yw gweld y galw yn syrthio i 13. Mae'r lleihad yn y galw am le ym Mhwll Coch (41) yn haws i'w ddeall am fod Hamadryad wedi agor yn ei dalgylch.

Dosbarth 4. Mae pump ysgol arall yn syrthio yn brin o fod yn llawn o ryw ychydig sef Coed-y-gof (52), Treganna (81), Penypil (28), Bro Eirwg (48) a'r Creigiau (25) ond rhaid derbyn y bydd sefyllfa felly yn digwydd o dro i dro.

Dosbarth 5. Mae Penygroes (17), sydd wedi bod ar agor am 10 mlynedd, yn dal yn methu â dod yn agos at ddenu mwy na thua hanner y plant y mae lle iddynt. Efallai y bydd adeiladu tai yn y bwlch rhwng Llysfaen a Phontprennau yn darparu disgyblion iddi.

Mae Caerdydd i dderbyn 80,000 mwy o ddinasyddion yn ystod y deng mlynedd nesaf. Mae ffrydiau ychwanegol ar y gweill ar gyfer Nant Caerau, Mynydd Bychan a Phenypil ac ymgynghori'n digwydd parthed y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Plasdwr, sef cynlluniau i ychwanegu 120 lle Cymraeg at y 840 sydd ar gael ar hyn o bryd. Felly bydd yn rhaid denu 265 disgybl ychwanegol erbyn 2021/2022 i lenwi'r ddarpariaeth – tipyn o gamp mewn cyfnod o leihad yn y cohort cyfan.

*Michael Jones*

# Merched y Wawr Cangen y Felin

Cafwyd noson agoriadol fywiog dros ben ar nos Iau 18 Medi, pryd daeth 60 o ferched ynghyd i fwynhau cwmni ei gilydd yng Nghapel Methodistiaid Kelston Road (ac roedd 10 wedi ymddiheuro am fethu bod yno)!

Mei Gwynedd a'r Gerddorfa Ukele oedd yn ein difyrru. Cafwyd cyfle i ganu'r hen ffefrynnau gyda'n gilydd gan godi'r to gymaint nes i Mei awgrymu y dylai aelodau Cangen y Felin ddod i bob un o'i gigs yn y dyfodol!

Cangen Y FELIN yw hon yn yr Eglwys Newydd. Cynhelir y cyfarfodydd ar y trydydd dydd Iau yn y mis am 7.30pm yn ystafelloedd moethus Capel y Methodistiaid Kelston Road ( ger y llyfrgell).

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 17 pan fydd Cyril Jones y bardd yn ein difyrru.

Bydd hon yn noson i'w chofio felly, dewch draw. Cewch groeso cynnes.



*Y Gerddorfa Ukelele a rhai o aelodau cangen ddiweddaraf Merched y Wawr*

# Merched y Wawr Caerdydd

**Noson yng nghwmni'r artist Cefyn Burgess**

Roedd yr ystafell yng Nghyncoed dan ei sang i fwynhau ein noson agoriadol yng nghwmni'r artist a'r cynllunydd tecstiliau Cefyn Burgess. Cawsom noson ddifyr ac addysgiadol wrth iddo ein tywys drwy ei brosiect diweddaraf 'Patagonia' sef cyfres o ddarluniau a charthenni a gomisiynwyd i ddathlu 150 mlynedd y Cymry ym Mhatagonia.

Eglurodd nad oedd am i'w gelf fod yn ddehongliad unigolyddol o Batagonia a disgrifiodd sut yr aeth ati i weithio efo trawsdoriad o bobl a phlant ym Mhatagonia ac yng Nghymru i gael eu hargraffiadau nhw. Roedd hynny yn creu plethiad o ddiwylliannau, traddodiad a hanes oedd wedyn yn cael eu gwau i mewn i'r lluniau a'r defnyddiau a grewyd.




*Cefyn Burgess a samplau o'i waith*

Diddorol oedd gwylio ffilmiau byr o'r cydweithredu creadigol rhyngddo a phlant a phobl o aml ddiwylliannau ym Mhatagonia ac hefyd gyda phlant ysgol a phreswylwyr cartrefi perswyl yng Ngogledd Cymru.

Rhannodd efo ni ei lyfrau sgetsio gan ddangos esblygiad y darnau celf o'r braslun cyntaf i'r darnau gorffenedig. Gwelem nad y capeli oedd prif wrthrych y darluniau terfynol ond yn hytrach fod ynddynt amlhaenau oedd yn adlewyrchu mewn lliw a gwead gyd-destun daearyddol a hanesyddol y capeli. Felly hefyd y carthenni oedd yn gyfuniad o batrymau traddodiadol y bobl Tehuelche a Mapuche yn ogystal â Chymru.

I gloi'r noson cafwyd cyfle i weld a theimlo enghreifftiau o'r gwaith celf gorffenedig – yn ddarluniau, carthenni, clustogau a lampau. Roeddem wedi ein cyfareddu gyda'i ddawn a'i angerdd am werth cyd greu er mwyn cyfoethogi'r dehongliad o'r gwrthrych terfynol.

Byddwn yn cael cyfle pellach i fwynhau dylanwad Cefyn fis nesaf wrth i ni fynd ar wibdaith i Sain Ffagan i gael hanes cywaith y croglun iau o storiau'r Mabinogi sydd yn Llys Llewelyn.






# DYGWYL Y MEIRW

gan Angela Roberts

## Sioe Dymhorol gan gwmni pypedau 'Seren Ddu a Mwnci'

Tydi Taid ddim yma mwyach – ond yng nghistiau'r atig, mae straeon Taid yn disgwyl i Gwen eu darganfod .....

Dathliad o chwedlau'r hen Geltiaid, gyda chymorth cymeriadau 'Bwci-Bo' Cymrieg fel yr Hwch Ddu Gota, y Ladi Wen a Jac y Lantarn. Pypedau, actorion, triciau, miwsig, cysgodion ...

Dewch i'r Sioe mewn gwisg Calangaeaf!
Addas i blant 4 - 12 a'u teuluoedd.
Cynlluniau gwersi ar gael i ysgolion.

Dydd Llun 28/10/2019 11.00 a 14.00
Neuadd Llanofer, Caerdydd
02920 689888 mentercaerdydd.org

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, Noson Allan, Menter Iaith Fflint/ Wrecsam, Menter Iaith Caerdydd

# Merched y Wawr Bro Radur

Parti`r Efail fu yn ein difyrru yn ystod noson gynta'r tymor a da dweud bod y Neuadd yn llawn i`r ymylon.

Sefydlwyd Parti`r Efail yn 1995 ac maen nhw wedi cystadlu ymhob Eisteddfod Genedlaethol a Gŵyl Cerdd Dant ers hynny - tipyn o gamp ! Menna Thomas yw arweinydd y parti ers y cychwyn ac mae`n amlwg bod y criw hwyliog yma yn mwynhau pob munud wrth berfformio.

Cyflwynydd y noson oedd Gwyn Hughes Jones a chafwyd rhaglen amrywiol dros ben a oedd yn symud yn rhwydd o fyd yr Alaw Werin i Gerdd Dant. Buom yn crwydro siroedd y De wrth wrando ar Gân y Cardi ac Englynion y Daten gan Waldo Williams, cyn dychwelyd i Forgannwg at yr hen dribannau. Dewis canu yn nhafodiaith yr un sir wnaeth Menna wrth iddi gyflwyno eitem unigol hyfryd.

Braf oedd gwrando ar lais swynol aelod ieuengaf y parti, Iwan Gruffydd, yn canu alaw draddodiadol ac hefyd mwynhau ymson digri Ifan Roberts.

Daeth y noson i ben gyda phenillion cyfoes a doniol o waith Rhys Dafis wedi`u gosod gan Menna Thomas. Mawr yw`n diolch hefyd i Bethan Roberts am gyfeilio. Yng ngeiriau Elsbeth Edwards, llywydd y gangen, llwyddom i daro`r jacpot wrth wahodd Parti`r Efail i noson gynta`r tymor.

Byddwn yn cyfarfod eto nos Fercher, Hydref yr 2ail yn Neuadd y Methodistiaid, Windsor Avenue, Radur am 7:30 pm pan fydd Dr Ffion Reynolds yn sôn am brosiect Archaeoleg Bryn Celli Ddu.

Croeso i aelodau newydd.



*Parti'r Efail*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Croesawyd pawb i Gapel Bethel Rhiwbeina ar gyfer Noson Agoriadol y Tymor gan yr Is-Gadeirydd Dwyfor Jones. Cyn cyflwyno'r gŵr gwadd, bu cyfle i gyflwyno siec i Elinor Walters, un o Wirfoddolwyr Llamau, sef ein elusen nawdd am y flwyddyn a aeth heibio. Diolchodd Elinor am y rhodd  a soniodd am waith yr elusen sy'n cynorthwyo'r digartref a'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Datgelodd bod  yn agos i 9,000 o bobl wedi derbyn cefnogaeth yr elusen y llynedd.



*Dwyfor Jones yn cyflwyno siec i Elinor Walters o Elusen Llamau*

Ein siaradwr gwadd, Y Parch. Dyfrig Lloyd, aeth a ni wedyn ar wibdaith  i Georgia ac Azerbaijan "O lannau'r Môr Du i'r Caspian" a llwyddodd yn ei ffordd ddihafal i roi naws o'r hyn sy'n digwydd yn y rhan hon o'r byd ble mae'r Gorllewin yn cwrdd â'r Dwyrain. Eglurodd  hanes crefyddol a diwylliannol hynod ddiddorol y gwledydd hyn sydd tu hwnt i brofiad y rhan fwyaf ohonom. Mae digonedd o olew yn Azerbaijan a hynny wedyn yn ei gwneud hi'n wlad gyfoethog iawn yn llawn o adeiladau gorllewinol.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar yr Hydref yr 21ain, croeso i bawb.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yn ein cyfarfod cyntaf o'r tymor, croesawyd Malcolm Thomas, cyn brifathro Ysgol Glantaf, i'n plith i sôn am y dylanwadau a fu arno a'r profiadau a gafodd yn ystod ei yrfa arbennig o lwyddiannus yn Nghaerdydd fel athro a phrifathro.

Disgrifiodd ei fywyd cynnar hapus yng Nghwmcoch, Penygroes, ardal y glo caled a Phwll Glo Caerbryn, dylanwad ei rieni, amryw o weinidogion, Eglwys Mynydd Seion, clybiau'r Seren Fore, ysgol gynradd y pentref ac Ysgol Uwchradd Rhydaman - "*Elyrch urddasol yn nofio'n llechwraidd ar y llyn llonydd,*"

Ym Mhrifysgol Abertawe, cafodd arweiniad yr Athrawon Stephen J. Williams a Glanmor Williams a chyfeillgarwch Amanwy, gofalwr y coleg. (awdur yr emyn "*Melys ydyw cywair ein telynau glân.*")  Wedi graddio a sefydlu fel athro yng Nghaerdydd, soniodd am y cyfnod hapus a dreuliodd yn ysgolion Yr Eglwys Newydd, St. Cyrus, ac yn brifathro a sylfaenydd Ysgol Gymraeg Glantaf.  Ei nod bob amser oedd cyfathrebu, arwain a dysgu gyda'r athrawon, plant a rhieni, a chael profiadau newydd i'w trosglwyddo. Rhannodd y problemau a'r llwyddiannau ar hyd cyfnod hir cynhyrchiol, gyda chefnogaeth ei briod, Jean, am 60 mlynedd. Sefydlodd sawl prosiect hir dymor academaidd a chymdeithasol o fewn bywyd yr ysgol. Tystir fod ei ddylanwad yn para o hyd. Roedd yn amlwg ei fod yn hoff o rygbi, criced a phêldroed, ac wedi bod yn hyfforddwr gydag Undeb Rygbi Cymru.



*MalcolmThomas*

Bu'n brynhawn rhyfeddol yng nghwmni gŵr arbennig iawn, addysgwr diwyd a gwir Gristion!

## Ennill Cymhwyster Prentisiaeth yn y Senedd

Mae dyn ifanc o Landaf, Aled Thomas, wedi cael profiad gwethfawr o weithio yn y Senedd wrth ddilyn prentisiaeth yno.

Uchafbwynt y brentisiaeth yn ôl Aled oedd cael cyfle i gysgodi'r Prif Weithredwr.  Cafodd hefyd gyfle i weithio mewn gwahanol adrannau gan gynnwys gweithio gyda'r pwyllgorau a gyda'r gwasanaeth cyfieithu.



*Aled Thomas*

Cyfrannodd at ysgrifennu blog ar-lein am niwro-amrywiaeth a gyhoeddwyd gan y Cynulliad.

Mae Aled hefyd yn adnabyddus fel perfformiwr piano ac am ei waith yn cynyddu ymwybyddiaeth o awtistiaeth a thafodieithoedd Cymraeg.

Pob lwc i Aled ar ei yrfa yn y dyfodol.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun 16eg o Fedi, cawsom ni ddarlith ddiddorol iawn gan Iwan Griffiths, ffisegydd, gynt o Brifysgol Abertawe, sydd wedi ymddiddori mewn tonnau disgyrchiant a thyllau duon ers blynyddoedd.

Dechreuon ni drwy sôn am y darganfyddiad o donnau annelwig gan dîm rhyngwladol o wyddonwyr oedd yn cynnwys gwyddonwyr o Brifysgol Caerdydd yn 2015. Yna aethon ni nôl ganrif union mewn hanes i 1915 lle cyflwynodd Albert Einstein y syniad o donnau disgyrchiant fel rhan o'i waith ar berthnasedd cyffredinol. Bu llawer iawn o wyddonwyr yn chwilio am brawf ymarferol o'r tonnau yma, ond roedd tystiolaeth uniongyrchol yn anodd i'w gael.

Daeth tystiolaeth anuniongyrchol yn ystod y saithdegau a'r wythdegau wrth i fesuriadau o ddwy seren niwtron oedd yn troi o amgylch ei gilydd ddangos eu bod yn colli egni yn union fel petaent yn cynhyrchu tonnau disgyrchiant. Adeiladwyd nifer o arbrofion i geisio gweld tonnau disgyrchiant yn pasio trwy fariau metel enfawr. Ond roedd rhaid aros tan 2016 pan gyhoeddwyd bod arbrawf LIGO (Laser Interferometry Gravitational Observatory) wedi darganfod newidiadau bychan iawn i daith laser mewn twnnel 4km o hyd y flwyddyn cynt. Mae siâp a maint y signal yn awgrymu'n gryf bod dau dwll du enfawr wedi uno yn bell i ffwrdd yn y gofod.

Ar hyn o bryd dim ond digwyddiadau sy'n ymwneud â thyllau duon a sêr niwtron sy'n cynhyrchu tonnau disgyrchiant digon cryf i ni eu canfod ar y ddaear. Dangosodd Iwan y llun cyntaf o dwll du mewn galaeth o'r enw M87 a gyhoeddwyd yn 2018. Mae'r twll du hwn yn anhygoel o fawr, gyda más tua chwech a hanner miliwn gwaith yr haul. Mae'r tyllau duon a unodd i greu y tonnau disgyrchiant y gwelodd LIGO yn llawer llai, y ddau tua 30 gwaith más yr haul. Gwelwyd y signal mewn dau arbrawf 3000k mo'i gilydd, ond heb weld y signal mewn trydydd lle, nid yw'n bosib dweud ble yn y bydysawd y digwyddodd y digwyddiad anhygoel yma. Efallai na fyddwn ni byth yn gwybod o ble daeth sgrech olaf y tyllau duon yma - ond diolch i Iwan am roi y fath syniadau yn ein pennau.

*Rhys Morris*

***O'r chwith I'r dde: Dr Neville Evans (cadeirydd), Cerian Angharad (ysgrifennydd), Dr Iwan Griffiths a Dr Rhys Morris (ysgrifennydd)***



# Cymdeithas Edward Llwyd

## Teithiau Cerdded Cymdeithas Edward Llwyd

Mae'n fis Hydref ac mae'r cnau yn aeddfedu ar y coed cyll a'r hen wiwer yn gorfod penderfynu ble i'w cadw nhw yn ddiogel dros fisoedd y gaeaf. Wrth imi feddwl am gnau, dw i'n cael f'atgoffa o'm dyddiau cynnar yn Llanallgo, sir Fôn. Roedd Mam a Dad yn mynd â ni efo bagiau i le ar gyrion Marianglas ble roedd yna fwy na digon yn tyfu ar y coed. Dw i'n siŵr ein bod ni'n casglu llawer mwy nag oedden ni eu hangen a chnau mwnci dw i'n cofio eu cael adeg y Dolig. Tybed a oedden nhw'n eu gwerthu er mwyn cadw'r blaidd o'r drws? Fel rheithor y plwyf, doedd y tâl ddim yn ddigon i'n cadw'n ofnadwy o gyfforddus er doedden ni byth yn llwgu ac roedden ni'n hapus dros ben.

Ar hyn o bryd mae'r coed yn llawn lliwiau a phob math o eirin yn hongian yn drwm. Os dach chi'n hoffi tynnu lluniau dyma amser da i grwydro. Gwisgwch yn dda a chadwch eich llygaid ar agor - mae byd natur yn ddiddorol!

Mae Cymdeithas Edward Llwyd yn trefnu teithiau maes pob dydd Sadwrn mewn tair rhan o Gymru ac mae croeso mawr i chi ymuno â ni. Os dach chi'n dysgu, neu wedi dysgu, wel dyma eich cyfle i ymarfer siarad ac ar yr un pryd ddysgu am fyd natur. Beth amdani? Mae rhaglen y De ddwyrain i'w gweld ar wefan cymdeithasedwardllwyd.cymru

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EBENESER

**Apêl Madagascar**

Fis Gorffennaf daeth ein hymdrech i godi arian i Fadagscar i ben ar ôl deunaw mis. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau a chafwyd cyfraniadau hael tuag at elusen ddewisedig yr Annibynwyr. Braint i ni oedd gallu codi £8,750 tuag at yr achos teilwng hwn. Bydd yr arian yn mynd tuag at nifer o brosiectau yn y wlad. Diolch i bawb am ymdrech clodwiw.

**50!**

Llongyfarchiadau i Gill a Gethin Lewis ddathlodd eu Priodas Aur ar 2il o Awst. Cawson nhw amser wrth eu bodd yng nghwmni'r teulu.

**Carreg filltir**

Ar 15fed o Fedi dathlodd Beti Wyn Davies ei phenblwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau iddi ar gyrraedd oedran teg!

**Ffarwelio**

Ar fore Sul 9fed o Fedi, ffarweliwyd â Carys Mair Jones oedd ar fin symud i Aberystwyth i weithio am flwyddyn gyda Relay UCCF. Dymunodd Alun Tudur , ein gweinidog, yn dda iddi ar ran teulu Ebeneser. Cyflwynwyd rhodd o £1,000 iddi gan ei bod yn gorfod ariannu ei hun am y flwyddyn, ac fe gafwyd cyfle i weddïo drosti ac am ei gwaith dros yr Arglwydd Iesu. Mae Duw ar waith yn ein plith, diolchwn iddo am ein hieuenctid a'u gweledigaeth.

**Y Gymdeithas**

Ar nos Fawrth 17eg o Fedi, cafwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeithas gyda'r Dr Cynan Llwyd yn siarad am ei daith i Kenya gyda Chymorth Cristnogol. Cynan yw Cydlynydd Rhanbarthol De a Chanolbarth Cymru yr elusen. Soniodd am ei ymweliad â nifer o bentrefi i weld fel mae'r arian sydd wedi'i godi drwy'r mudiad yn cael ei wario i wella safonau byw'r bobol. Braf oedd gweld fod yr arian yn gwneud gwahaniaeth dybryd ar ôl iddyn nhw ddioddef cyfnod o newyn. Roedd y croeso yn dwymgalon a hynod o wylaidd. Roedd yn dangos pa mor freintiedig ydyn ni yn ein digonedd.



*Gill a Gethin a'r teulu.*

## EGLWYS Y CRWYS

**Cydymdeimlo**

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs. Lydia Jones ddechrau Medi. Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod, Alun a'r plant, yn eu profedigaeth.

**Graddio**

Llongyfarchiadau mawr i Miss Siân Evans, cyn-fferyllydd wedi ymddeol, ar ennill Gradd BA (Anrhydedd Dosbarth Cyntaf) yn y Dyniaethau (Hanes) yn y Brifysgol Agored.

**Priodas**

Ddiwedd mis Awst yn Eglwys y Crwys priodwyd Gwenno, merch John a Mali Rowlands â Siôn Lewis, mab Geraint a Siân Lewis.

**Prynhawn Da**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o 'Prynhawn Da' yng nghwmni y Dr Rebecca Jones a siaradodd am 'Bywyd a Gwaith yn Bangladesh'. Cafwyd sgwrs hynod ddiddorol ganddi. Llywyddwyd gan ei thad, Mr David Jones ac roedd y defosiwn dechreuol dan ofal Mrs Eleri Bines. Darparwyd y lluniaeth gan Mrs Gwen Holt a Mrs Lynfa Owens.

**Y Gymdeithas**

Cafwyd noson agoriadol hwyliog a chartrefol yng nghwmni Hywel Gwynfryn gyda'i sgwrs 'Hywel yn holi Hywel.' Llywyddwyd gan Mrs Catherine Jobbins a oedd hefyd yng ngofal y lluniaeth, ynghyd â'r Dr Diana Evans.

**Y Gymdeithas Ddrama**

Mae'r ymarferion wedi cychwyn ar gyfer llwyfannu 'Hen Gastiau Castio', addasiad Bob Roberts o 'Trivial Pursuit' gan Frank Vickery. Diolch i Bob am ei holl waith diflino i'r Gymdeithas. Y Cyfarwyddwr yw Robin Owen.

**Trefeca**

Aeth wyth o'r chwiorydd i Encil Chwiorydd y De yng Ngholeg Trefeca. Cafwyd diwrnod bendithiol o dan arweiniad Mrs. Siriol Burford a'r Dr Catrin Haf Williams.

**Ysgol Sul**

Mwynhaodd plant a rhieni yr Ysgol Sul benwythnos poeth o Fedi yn Nhresaith. Diolch i Thomas Williams am y trefniadau.

**Oedfaon Mis Tachwedd**

Bydd y Gweinidog yn ein harwain yn yr oedfaon ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul o Dachwedd. Y Parch. Robert Owen Griffiths ar Dachwedd y 10fed a chawn gwmni y Parchedigion Ifan a Catrin Roberts ar Dachwedd 24ain. Croeso cynnes i bawb i ymuno i gyd-addoli.

## BETHEL, PENARTH

**Oedfaon Mis Medi**

Yn oedfa gynta'r tymor cawsom arweiniad craff Dr Phil Ellis yn y bore. Yn oedfa'r hwyr cawsom ein tywys gan ein gweinidog. Nododd fod 'arian a chyfoeth' yn ymddangos sawl gwaith yn Efengyl Luc a thynnodd ein sylw at y gwahaniaeth rhwng arian a chyfoeth ac ariangarwch. Ar ganol y mis, roeddem dan ofal treiddgar y Parchedig Hywel Wyn Richards a gyfeiriodd ein meddyliau at Ioan 21, 15-25. Mae'r adnodau hyn yn fath o ôl-nodyn i'r efengyl, ac yn cynrychioli gwendid llawer ohonom, sef anghofio dweud rhai pethau pwysig.

## SALEM, TREGANNA

**Yr Ysgol Sul**

Cawsom bicnic hyfryd yn y parc ym Mhontcanna ar ddechrau'r tymor wrth i'r Ysgol Sul gwrdd unwaith eto wedi'r haf. Cyfle i bawb ymlacio a chymdeithasu wedi'r haf.



*Picnic yr Ysgol Sul*

**Y Clwb Criced**

Wedi tymor o nifer o gemau cyffrous, cawsom ein cinio criced blynyddol i gau'r tymor yn ddiweddar. Diolch i bawb am chwarae - dyma ni wedi tymor prysur!

**Llongyfarchiadau**

Hoffem longyfarch ein pobl ifanc yn eu harholiadau yr haf hwn, yn arholiadau TGAU, Safon Uwch a gradd, llongyfarchiadau i chi gyd!

**Llongyfarchiadau i Evan**

Llongyfarchiadau i Evan Morgan, ein Gweinidog, ar gael ei ethol yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bydd yn cychwyn yn ei rôl o haf nesaf ymlaen. Dymunwn bob llwyddiant iddo gyda'r gwaith a'r cyfrifoldeb arbennig hwn.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Fe wnaeth y clwb gyfarfod am DVD a sglods ddiwedd Medi, a chyfle hefyd i drafod y penwythnos preswyl ym mis Tachwedd. Croeso i aelodau newydd blwyddyn 7!

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr a nifer o'n haelodau sydd wedi colli rhai annwyl dros yr haf. Meddyliwn am Nia Roblin, Siwan Matthews, Elsbeth Edwards, Gwenda Burd, Richard Lewis a Carys Pithouse yn eu colled. Rydych chi a'ch teuluoedd yn ein meddyliau yn ystod yr amser anodd hwn.

## MINNY STREET

**Oedfaon y Sul**

Mae croeso i bawb o'r ieuengaf i'r hynaf i'n hoedfaon ar y Sul am 10:30 a 18:00. Y Gweinidog fydd yn arwain ein hoedfaon Sul cyntaf mis Hydref (Cymundeb yn yr hwyr), yr oedfa foreol gynnar ac oedfa'r bore ar y 13eg a'r ddwy oedfa ar 20 Hydref. Yn yr oedfa hwyrol ar y 13eg, byddwn yn ymuno yng Ngŵyl Bregethu Eglwys Ebeneser (yn Eglwys Canol y Ddinas, Windsor Place). Y Parchedig Hywel Wyn Richards (Pen-y-bont ar Ogwr) fydd yn arwain yr addoliad yn oedfaon 27 Hydref (17:30). Bydd Ysgol Sul ar 6, 20 a 27 Hydref.

**Pobl Ifanc Minny Street**

Bydd Pobl Ifanc Minny Street yn ail ddechrau nos Lun, 7 Hydref, am saith o'r gloch.

**Y Gymdeithas**

Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod ddwywaith y mis o fis Hydref mlaen gyda'r cyfarfod cyntaf ar nos Fawrth, 1 Hydref, am saith o'r gloch.

**Minny'r Caffi**

Bydd cyfarfodydd cyntaf cynllun newydd Minny'r Caffi i bobl sy'n byw â dementia a chyflyrau tebyg, yn cael eu cynnal yn y festri brynhawn Gwener, 4 Hydref ac eto ar 8 Hydref (14:00–15:30).

**Koinonia**

Cynhelir Koinonia bnawn dydd Mercher, 9 Hydref am 12:00 yn Caffe Fach, Rhiwbeina ac eto nos Sul, 20 Hydref am 19:30.

Bydd Babiminis, Bethania a Llynyddwch hefyd yn cwrdd ym mis Hydref. Ceir manylion llawn am holl weithgareddau'r capel ar wefan y capel www.minnystreet.org.

Bydd cyfle hefyd yn ystod y mis i gyfrannu nwyddau at elusennau, cynorthwyo gyda the i'r digartref a phrynu nwyddau Masnach Deg.

## EGLWYS DEWI SANT

**Datganiad Organ**

Cynhaliwyd cyngerdd agoriadol yr Organ Fest yn Eglwys Dewi Sant Nos Wener, Medi'r 6ed. Gwerthfawrogodd cynulleidfa niferus ddatganiad meistrolgar Gerard Brooks, llywydd Coleg Brenhinol yr Organyddion. I ddilyn cafwyd derbyniad yn neuadd yr eglwys.

Pnawn Gwener, Medi 20fed, cafwyd datganiad gan Elin Rees, Eglwys y Plwyf, Bury.

**Gwasanaeth Teuluol**

Thema'r gwasanaeth hwn fore Sul, Medi'r 8ed, oedd 'cyfri'r gost'. Mae llwyddiant mewn unrhyw faes yn golygu ymdrech a dyfalbarhad. Yr un modd ni ellir dilyn Iesu heb ystyried oblygiadau hynny.

**Cylch Dewi**

Dydd Mawrth, Medi 10ed, cynhaliwyd cyfafrfod o Gylch Dewi. Anfonwyd cofion at Ann Mears, cadeirydd y cylch, sydd wedi cael anffawd gas yn ddiweddar. Dymunwyd adferiad buan iddi.

**Bore Coffi a Chlonc**

Daeth nifer dda ynghŷd i gefnogi'r bore coffi a chlonc fore Sadwrn, Medi 21ain. Cafwyd amser difyr yn sgwrsio am brofiadau gwyliau'r haf.

**Mynd am Dro**

Trefnwyd taith gerdded gan Delyth Davies ddydd Iau, Medi 19eg. Cafwyd diwrnod braf i gerdded o Benarth i'r Sili.

**Colli Len**

Gyda thristwch mawr y derbyniwyd y newyddion am farwolaeth Len Williams. Bu cyfraniad Len i fywyd Eglwys Dewi Sant yn sylweddol iawn a hynny am gyfnod maith. Yr oedd yn ffyddlon yn ei bresenoldeb ac yn ymarferol yn ei gefnogaeth i waith yr eglwys. Fe'i cofir yn arbennig am ei hynawsedd, ei foneddigeiddrwydd, ei gyfeillgarwch, ac uchlaw pob dim ei hiwmor. Estynnir cydymdeimlad diffuant â Mererid, Carys a Prys a'r teulu oll.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Priodas Ddeiamwnt**

Llongyfarchiadau mawr a phob bendith i Noel a Helen Gibbard ar ddathlu eu priodas ddeiamwnt ynghynt yn yr haf. Dyw Noel na Helen ddim wedi mwynhau'r iechyd gorau yn ddiweddar a chofiwn amdanynt. Llongyfarchiadau ar enedigaeth eu gor-wyres gyntaf, Mia Rose.

**Swydd Newydd**

Dymunwn yn dda i Ffion Taylor wrth iddi symud i weithio yn Llundain am rai misoedd.

**Symyd Tŷ**

Dymunwn bob bendith i Emyr, Catrin, Ania ac Elsi yn eu cartref newydd yn yr Eglwys Newydd, ac i Lis Williams wrth iddi symud i Barc y Rhath.

**Gwlad Thai**

Dymunwn bob bendith i Selwyn a Beryl Williams wrth iddynt ymweld â'u merch Nerys a'i gŵr Tom, yn Partaya, Gwlad Thai. Mae Tom a Nerys yn gweithio yng nghanolfan Tamar sy'n ceisio cynnig cymorth a swyddi amgen i ferched y diwydiant rhyw.

# Gwylio'r Geiniog

*"Byddwch yn ofalus os fyddwch chi'n derbyn ffôn newydd yn y post nad ydych wedi ei archebu."*

## Huw Roberts



**Morgeisi**
Mae cost benthyca'r llywodraeth yn isel iawn. Newyddion drwg i gynilwyr sydd ddim yn "siopa o gwmpas", gyda'r graddfeydd llog yn isel iawn. Ar y llaw, arall mae'n newyddion da i bobol sydd eisiau morgais, ond byddwch yn ofalus gyda ffioedd uchel am drefnu'r morgais.

**Twyll ffonau**
Byddwch yn ofalus os fyddwch chi'n derbyn ffôn newydd yn y post nad ydych wedi ei archebu. Os ydych yn ei dderbyn ac yn arwyddo amdano efallai bydd gyrrwr yn dod i'w gasglu mewn hanner awr oherwydd "camgymeriad". Bydd y gyrrwr gyda'r ffôn newydd yn gofyn ichi dalu am y ffôn! Byddwch yn wyliadwrus.

**Cadw dogfennau ariannol**
Os ydych fel teulu yn cadw dogfennau ariannol am lawer o flynyddoedd, chwe blwyddyn yw'r pellaf yn ôl y gall y Swyddfa Dreth holi amdanynt. Felly gwaredwch â phopeth sydd gyda chi sy'n dyddio o cyn 5 Ebrill 2013.

**Gofynnwch i Huw: Sut allaf i gael gwybodaeth am bensiwn y wladwriaeth?**
I ddod o hyd i wybodaeth am bensiwn y wladwriaeth, gallwch fynd ar-lein i "Gwirio eich Pensiwn y Wladwriaeth' neu ffoniwch y llinell Gymraeg 0800 731 0175. Yr uchafswm yw £168.60 yr wythnos ac mae'n rhaid ichi fod wedi talu mewn am 35 o flynyddoedd.

Os oes gennych gwestiwn cyffredinol am y golofn anfonwch e-bost at huwrobertsaccountant@gmail.com neu trwy www.huwrobertsaccountant.cymru neu ffoniwch 029 2069 4524.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant.*

## BETHEL, RHIWBEINA

**Oedfaon Mis Medi**
Pleser oedd croesawu'r Parch. Aled Edwards atom i ddechrau'r tymor newydd. Ar ddau ddydd Sul, ein gweinidog y Parch. Evan Morgan oedd yn gwasanaethu, a hefyd cawsom gwmni Dr Gwynfor Jones a Mr Ion Thomas.

**Taith Evan i Jordan**
Ar fore Mawrth, Medi 24 bu cyfle i glywed hanes taith ein gweinidog i Jordan yn gynharach eleni. Rhyfeddwyd at y lluniau yn arbennig y rhai o hen dref Petra a diddorol oedd gweld y fan ar ymyl yr afon Iorddonen lle bedyddiwyd Ioan Fedyddiwr. Daeth Evan â nifer o arteffactau i ni eu gweld. Yn eu plith roedd sgarffiau hardd, a chawsom fwynhau ei weld yn defnyddio un ohonynt i greu penwisg Arabaidd. Diolch i Evan am fore difyr.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT, EGLWYS NEWYDD

Roedd hi'n hyfryd cael croesawu'r Tad Allan R. Jones i ddathlu'r Offeren ar Sul olaf mis Gorffennaf. Fe oedd wedi cynnal yr Offeren ar Sul olaf pob mis bron yn ystod y flwyddyn flaenorol, ond ers hynny bu'n astudio ym Mhrifysgol Leuven. Cafwyd cyfle am sgwrs i ddala lan â'i brofiadau yng Ngwlad Belg wrth fwynhau paned ar ôl yr Offeren.

Ar ddiwedd Awst, roedd y Tad Peter Davies yn ôl gyda ni ar ôl bod ar ei wyliau. Roedd yn braf ei weld e a'r Parch. Ddiacon Elfed Jones sydd yn cynnal yr Offeren ar Sul olaf pob mis yn Eglwys Gatholig Teilo Sant am 4:30 y prynhawn. Mae'r Tad Peter yn Gaplan yn Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd, ac yn ddyn prysur iawn ar benwythnosau hefyd. Ar Awst 25ain, dathlodd dair Offeren – un ym Mhwyleg, un yn Saesneg ac un yn Gymraeg i orffen y dydd! Mae'n fraint ei gael i'n gwasanaethu yn yr Offeren Gymraeg.

## TABERNACL, YR AIS

**Priodasau**
Ddiwedd mis Awst, cynhaliwyd dwy briodas gyda chysylltiadau amlwg â'r Tabernacl. Yng nghapel y Crwys, arweiniodd Delwyn Siôn, briodas rhwng Siôn Lewis ŵyr Megan a Wyn Morris â Gwenno Rowlands. Cwta wythnos yn ddiweddrach cynhaliwyd priodas Angharad Watkin, un o organyddion y Tabernacl, â Huw Pritchard yn Salem, Llanymddyfri.

**Llwyddiant yn yr arholiadau.**
Llongyfarchwn nifer o'r bobl ifanc sy'n ran o deulu'r eglwys wrth iddynt ddathlu eu llwyddiant yn yr arholiadau lefelau 'A' a 'TGAU'. Mae pob cam ar y daith addysgol yn bwysig, ac felly i'r cyfeillion hyn. Bydd Steffan Long yn mynd i ddilyn cwrs gradd ym Mhrifysgol Abertawe a bydd Noa Evans yn cymryd blwyddyn yn rhydd o fyd addysgu i fagu profiadau ehangach bywyd.

**Yr Ysgol Sul.**
Cynhaliwyd Sul y *Croeso Nôl* ar yr ail Sul o Fedi ac roedd gwahoddiad i bawb ymuno i fwynhau pryd bwyd 'Dewch a Rhannwch'.

**Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd**
Ar nos Iau ganol mis Medi roedd y Cyngor Eglwysi wedi cynnal cyfarfod yn festri Stryd Minny er mwyn trafod pa fath o emynau sy'n addas i'n hoedfaon. Gwahoddwyd dau gerddor i arwain y sgwrsio a chyfrannu enghreifftiau i'r cyfarfod, sef Euros Rhys Evans o'r Tabernacl, a Delwyn Siôn, arweinydd addoliad yn Eglwys Bethlehem, Gwaelod y Garth.

**Datganiad Organ.**
Ar y pedwerydd Sadwrn o'r mis, cynhaliwyd Datganiad Organ yn y capel gyda Huw Tregelles Williams yn rhannu o gyfoeth cerddoriaeth y canrifoedd diweddar.

**Cyngerdd Dathlu Caniadaeth y Cysegr yn 70 oed.**
Cynhaliwyd cyngerdd dathlu yn y Tabernacl o dan lywyddiaeth Caryl Parry Jones gyda Jeffrey Howard wrth yr organ a Miriam Isaac yn canu.i ddathlu'r achlysur. Cafwyd cyfraniadau gan ddau gôr gwych sef Côr Côrdydd a C.O.R. Lawnsiwyd CD newydd o addasiadau Jeffrey Howard ar y noson.



# Cwmni'r Dysgwyr

## Gwilym Dafydd

*"Pam mynd ati i ddysgu Cymraeg?"*

**Fiona Collins Dysgwr y Flwyddyn 2019/20**

Rydyn ni eisoes wedi uno i longyfarch Fiona ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Llanrwst a'r Cylch. Mae hi'n byw yng Ngharrog, Sir Ddinbych. Cyn-athrawes yw hi a dechreuodd ddysgu Cymraeg yn 1999.

Daw yn wreiddiol o Hampshire. Cymraes oedd ei mam ac yn nyrs. Symododd i Lundain wedyn i Hampshire gyda'i gwaith. Cyfarfu â'i gŵr yno oedd yn berchen ar dafarn.

Pam mynd ati i ddysgu Cymraeg? Dyma un o negeseuon Fiona Collins:

'Mi fydd yn eich cyfoethogi chi ac yn newid eich bywyd. Hyd yn oed os ydy e'n teimlo'n anodd ar y dechrau, cariwch ymlaen a pheidiwch â phoeni am siarad a gwneud camgymeriadau - cyhyd a bod pobol yn deall, mi ddaw.'

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Conwy 2019 – Cyfansoddiadau a Beirniadaethau**

Cyhoeddir y Cyfansoddiadau yn flynyddol gan Lys yr Eisteddfod Genedlaethol a medrwch ddarllen y cyfan am £10. Mae'n siwr bydd angen geiriadur i ddeall pob gair! Ceir Adran Dysgwyr a chystadleuthau Cyfansoddi i ddysgwyr, rhifau 132-140 ar dudalennau 257-281. Beth am fynd ati i ddarllen a gweld pwy enillodd gystadleuaeth Y Gadair, Y Tlws Rhyddiaith, Llythyr cais, Fy hoff olygfa, Blog a mwy. Mae'n ddarllen diddorol a llongyfarchiadau i nifer o ddysgwyr disglair. Beth am roi cynnig arni a chystadlu yn Eisteddfod Tregaron a'r Cylch 2020?

**Tymor y Gwyliau**

Fuoch chi ar wyliau dros yr haf? Gawsoch chi amser da? Oedd y tywydd yn garedig, hynny yw, oedd hi'n heulog ac yn gynnes neu'n boeth? Es i ar fordaith am wythnos i Norwy o Southampton ar ail ddydd Sadwrn mis Awst. Roedd hi'n wlyb yn Llanrwst ac yn wyntog yn Southampton! Erbyn bore Llun, ron ni wedi cyrraedd porthladd Stavanger, glaw yno ac yn Olden ddydd Mawrth. Ond diolch byth, roedd hi'n heulog ddydd Mercher yn Ålesund a bore heulog, cynnes yn Bergen cyn hwylio nôl i Southampton erbyn saith o'r gloch ar y bore Sadwrn.

Ron i wedi bod i Norwy unwaith o'r blaen, yn 1993, ond ces i gyfle i fynd i Ynys Enlli ger Aberdaron am y tro cyntaf eleni gyda rhai o gyfeillion Cymdeithas y Cymod. Taith ugain munud ar gwch Colin y cychwr enwog yn yr ardal yw'r unig ffordd i groesi'r Swnt, neu mentro nofio! Mae'r golygfeydd o ben Mynydd Enlli yn gyfareddol. Dylai pawb fentro yno o leiaf unwaith mewn bywyd a lle gwych i anghofio am Boris a Brexit!

**Clwb Gwylio Adar**

Roedd y teithiau natur a gwylio adar yn boblogaidd iawn yn ystod Eisteddfod Genedlaethol y Bae llynedd. Y syniad yw ein bod yn cynnal taith gerdded yn nhalgylch y Dinesydd i wylio adar ar fore Sadwrn cyntaf y mis am ryw ddwy awr, o ddeg i ganol dydd. Mae Eirian Dafydd wedi cytuno i arwain y daith gyntaf ar fore Sadwrn, 5 Hydref, yn Fferm y Fforest a Chamlas Morgannwg a Daniel Jenkins-Jones ar fore Sadwrn, 2 Tachwedd. (Efallai bydd rhaid cychwyn yn ddiweddarach oherwydd ffeinal Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan, sydd i ddechrau am 9 o'r gloch.) Y person sy'n arwain fydd yn dewis y lleoliad. Bydd croeso cynnes i bawb a dysgwyr sydd wrthi yn dysgu'r Gymraeg. Wyddoch chi beth yw 'heron' neu 'magpie' yn Gymraeg!

**Amser Jôc gyda Huw James**

Yn un o gymoedd y De – dwy ferch yn clebran dros wal yr ardd.

"Mae Annie yn mynd i briodi." "Oes rhaid iddi?" "Na." "Dyna swancen."

## Y Tyrfaoedd yn Heidio i Ŵyl Fwyd Sain Ffagan

Daeth dros 24,000 o bobl i fwynhau Gŵyl Fwyd Sain Ffagan ar benwythnos braf ddechrau mis Medi. Mae'r ŵyl yn ddeg oed eleni ac am y tro cyntaf, roedd yr Amgueddfa wedi gweithio mewn partneriaeth â Tafwyl a BBC Gorwelion i ddod â rhai o gerddorion gorau Cymru i'r ŵyl. Roedd pedwar llwyfan ar draws y safle gyda cherddorion yn chwarae yn Llys Llywelyn, Eglwys Sant Teilo, tu allan i'r Gweithdy ac ar y lawnt.

Yn wir, mae Sain Ffagan wedi cael blwyddyn arbennig eleni. Mae nhw wedi croesawu dros 700,000 o ymwelwyr i'r Amgueddfa ers cwblhau'r project ailddatblygu ym mis Hydref 2018, cynnydd anhygoel o 43% y cant ar y flwyddyn flaenorol. Ac ym mis Gorffennaf, enillodd Sain Ffagan wobr Amgueddfa'r Flwyddyn y Gronfa Gelf 2019 - gwobr amgueddfaol fwya'r byd. 'Byddwn ni'n edrych ymlaen at groesawu hyd yn oed mwy o ymwelwyr i'r amgueddfa fel canlyniad i'r wobr' meddai Bethan Lewis, Pennaeth Amgueddfa Sain Ffagan. Llongyfarchiadau mawr iddi a'r staff i gyd.

Os nad ydych wedi ymweld â Sain Ffagan yn ddiweddar, mae'n werth mynd yno i weld rhai o'r datblygiadau newydd. Yn eu plith mae Bryn Eryr, fferm o Oes yr Haearn sy'n seiliedig ar safle archaeolegol o gyfnod y Rhufeiniaid; Llys Llywelyn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth archaeolegol o Lys Rhosyr ar Ynys Môn, yma cewch flas ar fywyd brenhinol Cymru yn y 13eg ganrif neu beth am droi eich llaw at un o'n crefftau traddodiadol yn adeilad newydd y Gweithdy sy'n dathlu sgiliau cenedlaethau o grefftwyr Cymru.

Gweler hefyd erthgyl Lowri Cooke ar wledd Llys Llywelyn. tud 16.

# Dyddiadur Deurodiwr Dŵad

Dyma'r bennod olaf yn y gyfres – ac o'r diwedd mae Olwyn ap Gron yn datgelu ei wreiddiau yn y brifddinas, a'r 'hiraeth' sy'n ei ddenu'n ôl o dro i dro. Diolch iddo am gyfres ddifyr – ac addysgiadol ar sawl ystyr.

## Trem yn ôl wrth ffarwelio

"*Pwy ar ddiar ma' fe'n meddwl yw e'n sgrifennu'r fath gowdel am ein dinas ni?*"

"*Ma fe bron cynddrwg â'r Goronwy Jones 'na o'dd wrthi 'slawer dydd yn y Dinesydd.*"

"*Nid papur bro yw'r lle i bethe fel hyn.*"

"*A ma' nhw'n rhoi tudalen gyfan iddo fe! Sdim dicon o le i niws Merched y Wawr a Hen Nodiant a'r capeli a'r obits a'r Fro yn y papur fel ma' 'i.*"

"*Dim ond ein Lowri Haf ni sy'n haeddu tudalen – merch -y-ddinas, born an' bred, a gwbod popeth am bopeth.*"

"*So fe'n gwbod dim am y lle! Gog yw e – ma' fe'n impostyr!*"

"*Pwy yw e, eniwê?*"

(Sgwrs glywish i tu allan i'r capal – y rhan fwyaf wedi ei gyfieithu o'r Susnag gwreiddiol!)

'Nelais, ar gefn fy meic, am y Rec a'i rowndio heibio'r llyfrgell a nôl ger Lici-brwc. Mae'n heulog braf. Pobl yno'n chwara pêl, cerddad, loncian, beicio, gorweddian, labswchan, a g'neud ioga. Tasa Grange Albion yn chwara pêl-fas am y Dewar Shield yn erbyn Llanrumney Old Boys, fasa 'na filoedd yma, stalwm. Ond ddim heddiw.

Anwybyddu'r *'No cycling'* gan reidio trwy'r parc bach a'i floda. Pasio llain fowlio'r Fairoak Bowling Club ac oedi wrth weddillion pydredig y Dderwen Deg go iawn. Codi tuag at y llyn a chodi llaw ar 'oleudy' Scott. Nid *terra nova* mo fama i mi. "Croeso'n ôl" meddai'r elyrch a'r chwadods. Rownd y llyn, tro trwy'r 'Wild Gardens' a strydoedd y Llyngesyddion ac i fyny at 'rhen Fynwent Iddewig – yno ers 1841.

Lawr Allensbank, heibio mynwent fawr Cathays a'r Heath Hotel. Drws nesa i fynedfa'r barics roedd hen siop feics Mr Pitman – *Raleigh Royale 5-speed racer* coch am £24 – ffortiwn yn 1963. Dyna oedd dechra'r miri deurodio.

Ar un pen i New Zealand Road mae ysgol Gymraeg erbyn hyn – rhyfedd o fyd. Tua'r pen arall yr af, "Ymlaen" at ysgol Cathays. Croeso medd yr arwydd – yn Gymraeg, Susnag, a sawl iaith arall. "Croeso'n ôl", y dylai ddeud. Tiriogaeth W C Elvet Thomas, brodor a cheidwad cadarn y Gymraeg. Dim sôn am Jarman, na Howard, na Iolo a gweddill yr hogia – na'r genod oedd drws nesa. Un ysgol gyfun gymunedol i lu o gymunedau gwahanol ydyw, rwan. Troi at drac beicio'r Maendy gerllaw a'i gylchu, fel cynt ymhell cyn dyddiau melyn 'Go Geraint'.

Pasio'r myrdd fflatiau sdiwdants sy'n tresmasu ar diroedd y Llys Tal-y-bont hynafol, ac i lawr at yr afon. Ei dilyn heibio'r Geubalfa at gefnau Glantaf. Croesi'r bont a dringo at ysgol Bryntaf. Yr unig un Gymraeg, gynt: rwan mae 'na ddeunaw. "Croeso'n ôl" ebe'r Pennaeth, sydd yn stafell Mrs Enid Jones-Davies. Hen ddrysau-o-barwydydd mawr pren a gwydr. Lle sy'n llai nag yn llygad y cof, er yr adeiladau newydd. Murlun 'Ymdrech a lwydda' yn cuddio olion wal biso'r tai bach tu allan. Enw gwahanol – Pencae.

Reidio'r llwybr heibio'r Eglwys Gadeiriol tua'r Western Avenue prysur. Draw tu cefn i'r CBAC crand, gwelaf rith o bwll nofio oer, di-do. Rhes liwgar o ddrysa cytia newid. Huw'n dal i eistedd yn syn dan dŵr ar waelod y pwll yn chwythu swigod. Trwy Landaff Fields at drofan trolleybus rhif 4.

Does neb dwi'n ei nabod yn y Conway – dim Sbi na Jay'n chwara dartia; dim llond lolfa o ddysgwyr yn mwydro Goronwy Jôs; dim Eirian na Deri'n sipian slei bach yn y stafall ddi-ffenast. Dim ond iypis – lle posh 'di Pontcanna rwan. Lawr lôn, lle'r oedd Canolfan yr Urdd, mae fflatiau. Ble mae'r plac glas i gofnodi gwaith Gwilym, Trysor Cenedlaethol o'r gogledd (Gogledd Caerdydd!) fu'n rhoi trysor y Gymraeg i Frank a Linda a George, a channoedd eraill?

Dilynaf lwybr taith gerdded arferol 'nos Wener Aelwyd' trwy'r dre, ond tro 'ma ar fy meic. Ar West Grove, canolfan yr UCKG yw hen eglwys yr Undodiaid heddiw. Bu'n gartref cynnar i Aelwyd Caerdydd. Gweld 'Y Blew' yno'n 1967, rôl *pint of Light* llechwraidd yn y Tavistock – ehangu gorwelion!

Reidio ar Gordon Road heibio 'Tŷ'r Cymry'. Cartref yr Uwch-adran. Cartref i lawer mudiad dros y blynyddoedd i'n cefnogi ni'r Cymry Cymraeg dinesig prin. At gapel y Crwys Newydd, "Croeso'n ôl" meddai cyfoedion sy' nawr yn flaenoriaid. Llun cyfarwydd rhai 1955 ar y mur yno.

Lawr i'r pant dan y rheilffordd ar Lowther Road â'i biano o raffiti. Yna i'r dde. Ym mhig y lôn mae tafarn y Vulcan. Ond i ninnau oll, y New Ely yw hon, â'i fflyd o atgofion. Cartref cenhedlaeth o Gymry'r ddinas a Chymry dŵad. Ond teml i ffug-Gymreictod, yn ôl y 'Dinesydd'-ion a selogion y Fro Gymraeg. Yma bu Roj, Peck a fi'n 'dathlu' gyda pheint a chornish-pasti adeg gwyliau ysgol gorfodol y 1af o Orffennaf 1969, ymhell o'r sbloet cyfoglyd. Lle mae Penniman, Frogit a Dai Siop erbyn hyn Gron?

Cario'r beic dros y bont droed nôl at Richmond Road. Ai Peck sy'n chwarae acw ar y lôn gefn, neu ai Martin sy' yno'n llenydda? Troi i'r chwith ger y Plwca Halog a chofeb y merthyron gan ddilyn Heol y Crwys Bychan tua'r bont. Syllu ar y mosg, ond gwybod yn iawn mai hwn oedd cartref croesawgar capel ac ysgol Sul fy magwraeth. Ac yma profais gamau cyntaf fy addysg yn Gymro yn yr Ysgol Feithrin gyntaf yng Nghaerdydd.

Deurodiaf at ben y daith trwy'r llu strydoedd tai teras sydd ag enwau tiroedd a theulu'r Mackintosh of Mackintosh of Moy, Inverness. Bonedd estron oedd berchen ein dinas ddoe, nid y trigolion. Heddiw mae'n eiddo i landlordiaid barus a hap-ddatblygwyr. Ond mae enw un stryd yn eithriad, Tŷ'n-y-coed Place, ar ôl y fferm a




***Y Deurodiwr ifanc.***
***Faint ohonoch chi sy'n ei gofio?***

## Adolygiad Llyfr

*Dr Huw Edwards sy'n trafod cyfrol ei gyfaill a'i gyd seiciatrydd, y diweddar Dr Tom Davies, ar hanes meddygaeth yn Abertawe.*

Cafodd Dr Tom Davies yrfa lwyddiannus fel seiciatrydd ymgynghorol yn Abertawe. Roedd yn frodor o Flaendulais ac roedd ei deyrngarwch i'w fro'n ddi-syfl. Bu'n darlithio ar hanes meddygaeth yng ngholegau meddygol Caerdydd ac Abertawe. Ar ôl iddo ymddeol o'i swydd fel seiciatrydd, ymdaflodd gydag egni a brwdfrydedd i'w ymchwil i hanes meddygaeth yn Abertawe.




Rhaid ystyried y gyfrol hon yn ffrwyth llafur oes. Mae'n rhyfeddol o fanwl a chynhwysfawr ac yn anhepgor i unrhyw un sydd â diddordeb mewn hanes meddygaeth yng Nghymru. Testun siom a thristwch yw'r ffaith fod yr awdur wedi marw ychydig fisoedd cyn i ffrwyth ei holl ymchwil weld golau dydd.

Yn hanner cynta'r gyfrol, ceir penodau ar bob agwedd ar feddygaeth yn Abertawe o'r cyfnod cyntaf hyd at y cyfnod lled ddiweddar. Erbyn y ddeunawfed ganrif, roedd Abertawe wedi datblygu'n ganolfan bwysig ar gyfer y diwydiant copr. Dros yr un cyfnod, gwelwyd twf enfawr yn y boblogaeth. Roedd y broses o fwyndoddi copr yn cynhyrchu nwyon gwenwynig a oedd yn difa planhigion. Gellir disgwyl y byddai pawb yn derbyn eu bod yn peryglu iechyd y cyhoedd hefyd. Ond nid felly y bu. Fel y dengys Tom Davies, roedd nifer o feddygon lleol yn honni fod y nwyon yn llesol ar gyfer afiechydon y frest! Credant eu bod yn gwrthweithio dylanwad y drycsawr ('miasma') a oedd, yn eu tyb hwy, yn gyfrifol am nifer o afiechydon heintus.

Mae'r bennod ar glefydau heintus yn arbennig o ddiddorol. Rhoddir sylw manwl i'r geri marwol (Asiatic cholera). Cyrhaeddodd y clefyd Ewrop gyntaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan achosi lladdfa frawychus. Cyn i John Snow ddarganfod mai dŵr yfed llygredig a oedd yn gyfrifol, nid oedd unrhyw ddealltwriaeth ynglŷn â'r hyn a oedd yn achosi'r fath aflwydd. Cafwyd epidemigau o'r geri marwol yn Abertawe yn 1849, 1854, a 1866. Yr olaf oedd y mwyaf angeuol a bu farw 521. Prin fod angen dweud mai'r tlodion a oedd yn byw mewn tai gorlawn, heb ddŵr glân na charthffosiaeth effeithiol, oedd yn dioddef waethaf. Ceir manylion tebyg ynglŷn â'r frech wen ac afiechydon heintus eraill.

Ceir pennod hir ar feddygaeth ataliol. Pan benodwyd Dr William Michael yn swyddog meddygol ar gyfer iechyd y cyhoedd yn 1853, dim ond 54 o bob cant a oedd yn cyrraedd 15 oed gyda'r mwyafrif yn marw cyn iddynt gyrraedd pump oed. Argymhellwyd darparu cyflenwad dŵr ynghyd â thoiledau ar gyfer bob tŷ. Mae'r bennod yn disgrifio sut y cyflawnwyd y dasg hon, ynghyd â nifer o ddatblygiadau angenrheidiol eraill.

Yr unig syndod, efallai, o gofio cefndir proffesiynol yr awdur, yw bod y gyfrol yn cynnwys cyn lleied o wybodaeth ynglŷn ag afiechyd meddwl.

Mae ail hanner y gyfrol yn cynnwys manylion am 310 o feddygon fu'n gweithio yn Abertawe a Chastell Nedd. Mae rhai o'r cofnodion yn gynnil, ond rhoddir llawer o wybodaeth am y meddygon hynny a oedd yn flaengar ac yn ddylanwadol yn ystod eu hoes.

Mae is-deitl y gyfrol yn awgrymu mai rhyw fath o gyflwyniad yn unig yw'r gwaith swmpus hwn. Ni allai dim fod ymhellach o'r gwir. Yn fy marn i, bydd yn rhaid aros yn hir cyn i unrhyw beth tebyg ymddangos ar hanes meddygaeth yn Abertawe, neu unrhyw dref neu ddinas arall yng Nghymru.

*To Stand by the Sickbed: towards a history of medical practice in Swansea*
gan Tom Davies, Y Lolfa (2019) pris £14.99

*Huw Edwards*

---

oedd yno. A'r lle hwnnw sy'n bwysig i mi gan mai yma y dechreuodd y daith.

Mae'n 50 mlynedd union ers i mi adael Caerdydd am y gogledd. Dwi'n dal i nabod y lle fel cefn fy llaw – efallai am mai Brains Dark sy'n llifo trwy 'ngwythiennau. Dyna pam dwi'n dŵad yn ôl dro ar ôl tro.

Nid croeso'n ôl, ond "Croeso adra, Meurig."

*Olwyn ap Gron*



# Bwytai Merch y Ddinas

"*sôn am brofiad bwyd rhyfeddol mewn lleoliad cyfareddol*"



Lowri Haf Cooke

## Gwledd Llys Llywelyn, Sain Ffagan

Roedd gwledd Llys Llywelyn yn ystod Gŵyl Fwyd Sain Ffagan fel camu i gywydd gan Iolo Goch. Sôn am brofiad bwyd rhyfeddol mewn lleoliad cyfareddol, sef y llys 'canoloesol' a seiliwyd ar ymchwil i'r 13eg Ganrif, ac a ysbrydolwyd gan olion Llys Rhosyr, Sir Fôn. Dyma'r digwyddiad cyntaf o'i fath i gael ei gynnal yn y Llys, a synnwn i ddim na chynhelir gwleddoedd eraill tymhorol yno yn y dyfodol.

Felly, i nodi dengmlwyddiant yr Ŵyl Fwyd eleni, estynnwyd croeso i gwmni arlwyo Tân a Mwg i guradu bwydlen dymhorol, Gymreig. Ond, fel yn achos y cyflwyniad i'r arch-arth Superted, nid gwledd ganoloesol gyffredin mo hon...



Cychwynnwyd â thaith gerdded ddymunol o'r fynedfa, gan sawru pelydrau olaf haul yr haf. Gyda chanopi'r coed uwch fy mhen, cyrhaeddais borth Llys Llywelyn gan ochneidio mewn pleser wrth sawru'r olygfa ryfeddol! Roedd coctel jin ac ysgawen yn aros amdanom, ac yna byrbryd yn yr awyr agored – sef 'cornet' bapur o bys Carlin (o'r Hen Ogledd), a samffir.

Dychwelwyd i'r llys, a ger y meinciau a'r byrddau roedd addurniadau o ddeiliach a blodau gwyllt. O'n blaenau roedd bwydlen, a hanes yr holl seigiau, a'u ffynhonellau ledled Cymru (a Cumbria). Felly, ynghyd â'r salad suran, roedd sleisiau o kohlrabi ac afal sy'n gynhenid i Gymru, sef Pig Aderyn. Dilynwyd hynny gan 'gacen' bara lawr wedi'i lapio mewn cabaits Savoy, a'i weini â madarch gwyllt o Eryri, ar wely o salsiffi.

Bonllefau o gymeradwyaeth a groesawodd y moron, oedd â'u gwreiddiau – yn llythrennol – o dir fferm Caerhys, Abereiddi. Fe gawsant eu cyflwyno ar blanciau o bren gyda bresych cavolo nero, yn arnofio ar 'uwd' sawrus 'speltotto', sef risoto grawn hynafol Crown Prince. Roedd y ffarmwr, Gerald Miles, ac Ann ei wraig, ymysg y gloddestwyr ac yn gwmni da. Fe rannon nhw eu hanes fel amaethwyr organig, sy'n gweithredu'n chwyrn yn erbyn cnydau GM. Wedi hynny, cyrrhaeddodd y cig oen o fynyddoedd y Preseli, a rostiwyd trwy'r prynhawn ar y tân agored. Bu cryn aros am y pwdin – cacen 'siwet' Preseli, gyda llus a phetalau'r eithin – a fwynheais yn fawr, fel pob cwrs arall.

Fel 'profiad' bwyd gwahanol, bydden i yn ei gymharu ag ymweliad (a phris) bwyty Michelin. Nid o ran safon y bwyd, oedd ymhell o fod yn aruchel, ond o ran yr ymrwymiad i ffynonellu cynhwysion diddorol a thymhorol ledled Cymru. Gwir, roedd ambell i gŵyn – cafwyd tipyn o oedi rhwng cyrsiau, roedd rhai wedi'i siomi fod eu bwyd nhw braidd yn llugoer - ac fe ymestynnodd y noson tan bron i hanner nos.


Ond o ystyried mai dyma'r tro cyntaf i wledd o'r fath gael ei chynnal yno, rhaid dweud i mi fwynhau, yn arbennig felly yr elfen gymdeithasol. Bues i a fy chwaer yn clebran yn braf gyda'n cymdogion, gan wirioni ar rannu profiad bwyd unigryw a chymunedol. Buon ni hefyd yn trafod syniadau ar sut i 'wella' profiad o'r fath, a sut i lenwi'r cyfnodau hynny o aros.


Un peth ydyw i Amgueddfa Werin Cymru gynnig y safle gwefreiddiol ei hun, ond beth hefyd am gyflwyno ychydig elfennau o 'adloniant' fyddai'n nodweddiadol o wledd gyffelyb o'r oesoedd canol; datganiad o 'ras o flaen bwyd', efallai, neu gerdd gan un o Feirdd yr Uchelwyr, a fyddai'n driw i'r lleoliad (fel 'Llys Owain Glyndwr yn Sycharth') a chyfeithiad neu ddadansoddiad go hwyliog. Mi ydw i'n pwysleisio mai elfennau cynnil yn unig fyddai'r rhain, yn ddelfrydol; nid pawb sy'n dymuno mynychu noson gwisg ffansi *kitsch* mewn arddull ganoloesol, neu wrando ar y liwt trwy'r nos neu gyngerdd gerddorol neu barddonol. Mae'r rheiny'n achlysuron penodol, a allai hefyd weithio yn yr un lleoliad (helo, griw Bragdy'r Beirdd!). Wedi dweud hynny, roedd na griw yno, yn eu gwisgoedd, yn cynnal aduniad dros fedd o'r Alban, felly 'anything goes', ynte, ys dywed y Sais...

Yn fy marn i, y bwyd yw canolbwynt 'gwledd Llys Llywelyn', ond mae'r seibiannau rhwng y cyrsiau yn gwahodd cyfleoedd i ddenu'r sylw oddi ar ddolur cefn a phoenau pen-ôl! Gallant hefyd osgoi tynged go drychinebus, fel yn achos 'Trafferth Mewn Tafarn' Dafydd ap Gwilym – oni bai, wrth gwrs, mai noson o'r fath fyddai'ch nod!

**Bwytai Cymru a Canllaw Bach Caerdydd gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un.**

## Rhif: 195



### Ar Draws

1. 'Pan fwyf dryma'r ----- ----- -----
   Fe ddaw hiraeth ac a'm deffry' (3,2,5)
7. Sŵn mawr sy'n troi arnat (5)
8. 'Mi ----- lais yr Iesu'n dweud
   'Tyrd ataf Fi yn awr' (HBcyf) (7)
10. Dyheu am fyrhau'r ysgrifau (3)
11. Y mis gorau i gael caws tramor (4)
12. Cloi o amgylch 50 yn fuan (4)
14. Curo'r 500 mewn anhrefn ers eu geni (1'1, 4)
16. Ond a yw yn niweidio? (6)
18. Aderyn Llywelyn y bonheddwr (4)

19+20. Penblwydd y ganrif (4,3)

22. Difrio 500 nes eu difetha (7)
23. 'Drain ac ysgall mall a'i medd,
    ----- lle bu mawredd' (EE) (5)
24. Mae nhw yn deall Glan yma (2,8)

### I Lawr

1. 'Does gennyf ond dy allu mawr
   I'm ---- i fynd ymlaen' (WW) (5)
2. 'Cyhoedder y gair, atseinier y sôn
   A thrawer y salm ----- ei thôn' (WNW) (8)
3. Mewn Almaeneg es a'r cenadwri (6)
4. Wrth ddechrau ysgol newydd ymddengys sicrwydd y tir arwahan (4)
5. Heb dim i'w ddal (7)
6. 'Dywedodd Iesu wrthi 'Myfi yw'r ----- a'r bywyd'' (Ioan) (10)
9. 'Ac mae'r henwr wrthi'n fore'n
   ----- ----- (WCW) (5'1,4)
13. Astudio'r corf a tynnu Megan ato (8)
15. '----- mewn cwr o fynydd
    Newid aelwyd bob yn eilddydd' (WCW)(7)
17. 'Clywais lawer sôn a siarad
    Fod rhyw boen yn dilyn -----' (JB) (6)
20. Drama gerddorol a Pero wedi cyffroi (5)
21. Ebol anwes yn magu stumog (4)

**Enillydd Croesair Rhif 193**
**Lynne Davies, Llanisien**

**Atebion Croesair Rhif 193**

**Ar Draws:** 6. Llanelwy 7.Lliaws 9. Bwyta 10. Ei orsedd 12. Goruchafiaeth 14. Boneddigesau 18. Celanedd 19. Lleuad 21. Anwar Un ni ddaw

**I Lawr:** 1. Bachwr 2. Mentro 3. Cwm 4. Lifrai 5. Gwneler 8. Difater 11. Lluniaeth 13. Goleuni 15. Efallai 16. Aredig 17. Cadach 20. Enw

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Tachwedd, 2019
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Sefydlu Theatr ac Ysgol Bypedau Newydd

Mae yna gynlluniau ar y gweill i sefydlu theatr bypedau newydd yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, gyda'r nod o gyflwyno ffyrdd newydd o adrodd straeon bywyd yr Iesu i blant ysgolion cynradd. Mae'r straeon hyn yn bwysig yn ddiwylliannol, nid yn unig fel straeon ffydd, ond fel y straeon y mae diwylliant cyfan y Gorllewin wedi'u seilio arnynt. Mae hefyd yn fwriad i gynhyrchu straeon diwylliannol pwysig eraill (Y Mabinogion ac ati), ac annog cyfranogwyr i ddatblygu eu syniadau eu hunain.



Eisoes mae 25 o bypedau hardd pen-bwrdd clasurol, tua 80cm o daldra, wedi'u creu gan y gwneuthurwr pypedau o Frycheiniog, Graeme Galvin.

Er mwyn dod â'r grefft goll o greu bypedwaith yn ôl, bydd Ysgol Pypedwaith Anffurfiol hefyd yn dechrau yn neuadd Eglwys Dewi Sant ar brynhawniau Sul rhwng 2.30-4.00pm. Gall unrhyw un ymuno â'r ysgol pypedwaith - mae pob dosbarth yn costio £3.50 (neu £2 gyda chonsesiwn). Yn ogystal bwriedir cynnal dosbarthiadau meistr rheolaidd, gyda Gareth Aled, Cyfarwyddwr Pypedwaith Warhorse a Meilyr Sion, cyn-Zazu yn Lion King, eisoes wedi cytuno i arwain sesiynau.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: sally_humble_jackson@hotmail.co.uk, 07876464855.

# CERDYN POST O OSLO

## Lowri Haf Cooke yn holi Richard Wyn Jones

***Mae Richard Wyn Jones, sy'n 53 oed, yn Gyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd. Mae e'n rhannu ei amser rhwng Caerdydd ac Oslo, Norwy.***



**Un o ble ydych chi'n wreiddiol, ac ers pryd y buoch chi'n byw yng Nghaerydd?**

Cwestiwn syml ond mae'r ateb braidd yn gymhleth! Cefais fy ngeni yn Los Angeles (yn wir, gan eich bod yn gofyn, ar Sunset Boulevard yn Hollywood) ond fy magu ym Mhenmynydd, Ynys Môn. Cyn symud i Gaerdydd tua degawd yn ôl fe dreuliais chwarter canrif yn byw yn Aberystwyth.

**Beth yw eich perthynas ag Oslo, a pha mor aml y byddwch yn mynd yno?**

Dwi wedi byw yn Oslo yn barhaol ar wahanol gyfnodau (cyfanswn o tua tair mlynedd i gyd, mae'n siwr) a mae fy mhlant yn byw yno. Ers tua degawd rwy'n teithio nôl ac ymlaen tua dwywaith y mis.

**Beth yweich barn am Oslo?**

Mae Oslo yn reit debyg i Gaerdydd a dweud y gwir. Prifddinas cymharol fach mewn termau rhyngwladol, hefo poblogaeth dipyn yn fwy yn byw o fewn tua hanner can milltir i'w chanol. Mawredd Oslo ydi'r lleoliad. *Fjord* ar y naill ochr a'r bryniau coediog – y *marka* – ar y llall. Dinas i bobl sy'n mwynhau cefn gwlad neu o leiaf yr awyr agored ydi hon!

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Oslo...**

O ystyried pa mor wahanol ydi'r tymhorau yno, mae diwrnod delfrydol yn Oslo yn amrywio trwy'r flwyddyn. Yn y gaeaf, os ydych chi'n cymryd un o'r trenau 'tanddaearol' i'r stesion olaf yna bron yn ddieithriad mae modd neidio ar eich sgîs a dilyn un o'r llwybrau sgïo trawsgwlad i fewn i'r *marka* (mae cannoedd o filltiroedd ohonynt) a stopio mewn rhyw hen ffermdy i yfed siocled poeth a bwyta oren. Fel un a fagwyd ym Môn doeddwn i ddim wedi deall fod dim fel blâs oren pan mae hi'n rhewi!

Yn yr haf, a hithau'n olau mor hwyr, draw am y fjord fydd yn frith o gychod bach a dal un o'r fferis i un o'r ynysoedd, neu draw i benrhyn *Nesodden* (lle dwi'n treulio fy amser). Os graffwch chi ar benrhyn amlwg arall, *Bygdøy*, cewch y pleser o wybod fod un o'r tai crandiaf ac amlycaf a welwch yno yn eiddo i Gymro Cymraeg! Da ni ym mhob man…

Peidiwch a thrafferthu hefo Oslo ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr – cyn i'r eira setlo mae'n ddiflas ac yn dywyll!

**Pa 3 lle yn Oslo y byddech chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas?**

Fy hoff le o ddigon yn y ddinas ydi Parc Cerfluniau Vigeland. Lle cwbl ryfeddol. Dylai pawb hefyd fynd i ben y naid sgïo fawr yn *Holmenkollen* lle cewch brawf digamsyniol fod y neidwyr yn gorfod bod yn gwbl honco bost i wneud yr hyn y maent yn ei wneud. Mae'r oriel genedlaethol yn fendigedig.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yno?**

Mae popeth yr ydych wedi ei ddarllen am y prisiau yn Norwy yn wir. Mae'n frawychus o ddrud! Ond os bwyta allan, mae'r pysgod yn dda a'r cig ceirw – yr *elg* a'r reindyr – yn well fyth.

**Ble mae'r olygfa orau yno?**

I mi, mae'r olygfa o'r fferi sy'n teithio nôl a mlaen o ganol y ddinas i Nesodden yn arbennig. Ambell waith yn y gaeaf mae na haen o rew yn ffurfio ar y *fjord* sy'n torri a symud wrth i'r cwch fynd ar ei hynt. Adeg yna fyddai'n tueddu i sefyll ar y dec a gwylio mewn rhyfeddod – o leiaf hyd nes i mi fynd yn rhy oer i fod allan yno…

**Pan fyddwch chi'n teithio, beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd, a beth yw eich barn am y ddinas?**

Caerdydd ar ei orau ydi'r parciau, yr afon a'r bobl, yn enwedig fy nghydweithwyr dawnus. Ond mae canol y dref yn codi'r felan: ing y digartref a'r diymgeledd, y prynwriaeth gorfforaethol a'r bensaerniaeth ddienaid. Ych a fi.






## Gair o werthfawrogiad

**Diolch i Gymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd am rodd anrhydeddus i'r Dinesydd ym mis Medi. Gwerthfawrogir y gefnogaeth yn fawr.**

## Y DIGWYDDIADUR

### Hydref

**Mawrth–Iau, 8–10 Hydref**
Theatr Genedlaethol Cymru, mewn cydweithrediad â Theatrau Sir Gâr, yn cyflwyno *Y Cylch Sialc* (trosiad Mererid Hopwood o ddrama gan Bertold Brecht, gyda cherddoriaeth wreiddiol yn cael ei pherfformio'n fyw gan Gwenno), yn Portland House, 113–116 Bute Street, Caerdydd, CF10 5EQ. Pum perfformiad ar adegau amrywiol. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2019/y-cylch-sialc/
**Gwener, 11 Hydref**
Yn rhan o'r daith i gyhoeddi'r albwm newydd, *Blodau Papur*, bydd Alys Williams a'i band (Osian Williams, Dafydd Hughes, Aled Hughes a Branwen Williams) yn perfformio yng Nghlwb Ifor Bach rhwng 7.00pm a 10.00pm. Tocynnau: £12.
**Sadwrn, 12 Hydref**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd sgwrs gan Lynne Davies ar y testun 'Gerallt a'r Tywysog'. Yr un adeg bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 12 Hydref**
Bore Coffi Cymdeithas y Beibl yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, CF10 3DD, o 10.30 tan 12.00. Amrywiol stondinau. Mynediad am ddim.
**Mercher, 16 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sesiwn dan arweiniad John Rees ar y testun 'Trysorau'r Teulu', yn festri Capel Minny Street am 1.30pm. Pawb i ddod ag un trysor o'i eiddo i'w asesu.
**Gwener, 18 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Arwel Vittle ar y testun 'Dim Croeso '69: Gwrthsefyll yr Arwisgo', yn Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 19 Hydref**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.
**Llun, 21 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Richard Carter ar y testun 'Caerdydd Ddoe a Heddiw', yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30 pm. Croeso cynnes i bawb.
**Llun, 21 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs am feddygaeth gan y meddyg teulu Zoë Morris, yn Ystafell 0.77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.
**Gwener–Sadwrn, 25–26 Hydref**
Cimera yn cyflwyno 'Drudwen', stori tylwyth-teg gyfoes yn cael ei hadrodd trwy gampau syrcas, theatr gorfforol a cherddoriaeth fyw, yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2019/drudwen/
**Sadwrn, 26 Hydref**
Datganiad Organ gan Catherine Burrell yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 12.30pm. Mynediad am ddim. Casgliad tawel ar y diwedd.
**Iau 28 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7p.m. ar gyfer 7.30p.m. Cinio 'Dolig ac adloniant i ddilyn gan Criw y Fro o Ysgol Bro Morgannwg. Enillwyr Cenedlaethol yn 'Steddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol. Croeso cynnes I bawb. Am fanylion pellach, cysyllter â'r llywydd, Rowenna E. Thomas (07811802845) neu rowennat@gmail.com.
**Mercher, 30 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Tweli Griffiths ar y testun 'Consurio ac Ati', yn festri Capel Minny Street am 1.30pm.

### Tachwedd

**Gwener, 1 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Alun Guy ar y testun 'Tyfu'n Gerddor', yn Eglwys Dewi Sant, CF10 3DD, am 7.30pm. Croeso cynnes. Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig. Manylion gan yr Ysgrifennydd, E. Gwynn Matthews: 029-2056-2880.
**Gwener–Sadwrn, 1–2 Tachwedd**
Cynhadledd ar y testun 'Syniadaeth Gymreig' wedi'i threfnu gan Adran Athroniaeth Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru, yn Adeilad John Percival, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, rhwng 3.00 a 5.00 (Gwener) a 9.00 a 2.30 (Sadwrn). Siaradwyr: Dr Llion Wigley, Yr Athro Lisa Lewis, Yr Athro Daniel Williams, Dr Lisa Sheppard, Dr Gareth Evans-Jones a'r Athro D. Densil Morgan. Croeso i bawb. Ni chodir tâl am fynychu'r gynhadledd. I gofrestru, ac am fanylion pellach, cysylltwch â: WilliamsH47@caerdydd.ac.uk.
**Iau, 7 Tachwedd**
Trysorau'r Ffydd. Un o gyfres o gyfarfodydd o dan arweiniad yr Athro E. Wyn James sy'n edrych ar rai o uchelfannau ein llenyddiaeth Gristnogol. Gwaith Mary Owen (1796–1875), awdur yr emyn 'Dyma gariad, pwy a'i traetha?', fydd dan sylw yn y cyfarfod hwn. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, ar gornel Harriet St a Rhymney St, Cathays, CF24 4BX, am 7.30pm. Mynediad am ddim: croeso cynnes.
**Sadwrn, 9 Tachwedd**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd sgwrs gan y Parch. Lona Roberts am ddechreuadau addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Yr un adeg bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Mawrth, 12 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Sioned Davies ar y testun 'Merched y Mabinogi', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm.
**Mercher, 13 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Aled Roberts y Comisiynydd Iaith, yn festri Capel Minny Street am 1.30pm.
**Gwener, 15 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y delynores Gwenan Gibbard ar y testun 'Pori yn Archif Merêd a Phyllis', yn Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 16 Tachwedd**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.
**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Sian Williams am weithio gyda'r ffoaduriaid, yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**

# FY METRO PERFFAITH

Addasiad o adroddiad gan Angharad Traylor

**Beth sy'n digwydd?**

Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru wedi bod yn cynnal astudiaeth o rwydwaith cludiant Metro Rhanbarthol De Cymru. Gall y cynllun hwn drawsnewid y ffordd mae pobl yn teithio o fewn y rhanbarth yn y dyfodol. Mae Design Circle yn grŵp gwirfoddol sy'n gweithio o fewn cangen ddeheuol y Gymdeithas – ac yn cynnig cyfle i chi fynegi barn ar y cynlluniau mewn ffordd ddiddorol a chreadigol.

Yn 2016 cynhaliodd y grŵp weithdy dylunio llwyddiannus o'r enw "MUD" (Metro Urban Density) i edrych ar yr effeithiau cadarnhaol a allai ddeillio o'r cynllun Metro newydd. Hefyd, yn 2017, cynhaliwyd digwyddiad bach pellach (o'r enw #flashMUD) i ganolbwyntio ar orsaf Rhiwbeina.

Mae fideo byr ac adroddiad i'w gweld ar ein gwefan www.designcirclewales.co.uk

**Beth nesa?**

Yn sgîl hyn, mae Design Circle, gyda chymorth Page on Fire, wedi dylunio gêm ryngweithiol ar-lein, sef #FyMetroPerffaith, er mwyn rhoi cyfle i bobl rannu eu syniadau ynghylch datblygu'r Metro newydd. Gêm yw hon, tebyg i "SIMcity", sy'n gwahodd pawb - hen neu ifanc - i chwarae gêm bwrpasol, fel rhai ers llawer dydd, sy'n gadael i chi benderfynu pa gyfleusterau yr hoffech chi eu gweld yn cael eu datblygu o amgylch safleoedd Metro y dyfodol.

Mae chwaraewyr yn gallu llusgo a gollwng gwahanol fathau o fannau cyhoeddus ac adeiladau er mwyn adeiladu eu cyfuniad delfrydol o gyfleusterau a ddylai gael eu lleoli o amgylch safleoedd Metro. Ar ôl ei gwblhau, gall y sawl sy'n chwarae 'gyflwyno' eu dyluniad #FyMetroPerffaith.

Ar sail y gêm ar-lein yma, bydd Design Circle yn cofnodi blaenoriaethau pobl a dadansoddi pa fath o adnoddau a chyfleusterau y byddai pobl yn dymuno eu cael ar safleoedd Metro y dyfodol. Wedyn gellir gynnig canllawiau dylunio ystyrlon a chadarn i arwain penderfyniadau'r cynllunwyr.




Gall darllenwyr y Dinesydd ddilyn y ddolen i chwarae'r gêm a helpu i ddylanwadu ar sut y gallai ein cysylltiadau cludiant edrych yn y dyfodol. Y cwbl sydd ei angen yw PC, eiliad o'ch amser a'r angerdd i wneud dinasoedd, trefi a phentrefi De Cymru yn fannau ysbrydoledig i fyw, gweithio a chwarae ynddyn nhw.

